NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Iechyd yn y gweithle: absenoldeb oherwydd salwch hirdymor a'r gallu i weithio

20 Tachwedd 2019

## *Cefnogi iechyd pobl yn y gweithle a rheoli absenoldeb oherwydd salwch*

Mae creu gweithleoedd iach a chefnogol yn helpu i gadw pobl yn y gwaith ac yn lleihau absenoldeb oherwydd salwch. Ond po hiraf y mae rhywun yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, y mwyaf anodd ydyw iddo fynd yn ôl i'r gwaith. Gall bod yn ddi-waith am amser hir olygu bod pobl yn colli sgiliau a hyder yn ogystal ag incwm. Gall effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant hefyd. Nid yw llawer o bobl yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl bod yn absennol oherwydd salwch am gyfnod hir. Mae problemau iechyd sy'n atal pobl rhag gallu gweithio yn costio £9 biliwn y flwyddyn i gyflogwyr ac mae cost enfawr i'r bobl eu hunain.

Rydym am sicrhau bod y canllaw hwn yn helpu cyflogwr i wella'r ffordd y maent yn rheoli absenoldeb oherwydd salwch a helpu eu staff i ddychwelyd i'r gwaith drwy sicrhau'r canlynol:

- bod gan sefydliadau bolisïau clir a theg ar reoli absenoldeb oherwydd salwch a ddeëllir gan eu staff
- bod rheolwyr yn gwybod sut i hyrwyddo diwylliant sy'n gwerthfawrogi iechyd a llesiant staff
- pan fo aelod o'r staff yn absennol oherwydd salwch, fod ei gyflogwr yn cadw mewn cysylltiad ag ef er mwyn rhoi cyngor a chymorth iddo
- bod cyflogwyr yn gweithio'n agos gyda phobl er mwyn llunio cynllun dychwelyd i'r gwaith a'r help fydd ei angen arnynt, er enghraifft sut y gellid addasu eu rôl neu eu gweithle i ddiwallu eu hanghenion
- y cynigir rhaglen gymorth i bobl sy'n cael budd-daliadau ac sydd â chyflwr iechyd neu anabledd er mwyn eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith.


© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- BackCare, 0208 977 5474
- Cyngor ar Bopeth, 03444 111 444
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 00 00
- Mind, 0300 123 3393
- Pain Concern, 0300 123 0789
- Versus Arthritis, 0800 5200 520

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl sydd â phrofiad proffesiynol ac ymarferol o hyrwyddo iechyd yn y gweithle. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3598-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.